Rhifyn Cofia y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoedycymmer.

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 4.] EBRILL, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Y Diweddar
Barch. J. Hathren Davies, Cefncoedycymmer.
R.J.J.
Hathren fel Dyn.
E. Walter Thomas, Tonypandy.
Mewn Anghof Ni Chant Fod.
E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.
Cwyn Awen Uwchben Bedd Hathren. Alva.
Pregeth. Hathren.
Barddoniaeth Islwyn. Sarnicol.
Dr. P. J. Forsyth a'r
Parch. R. J. Campbell.
Congl yr Awen.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J.R., Pontbrenllwyd; J.O.L., Llandyssul; E.P.J., Llanrwst; W.P.W., Bangor; E.J., Pensarn; Parch. T.Ll.J., Lerpwl; H.J., Gwargraig; Mrs.E., Talgareg; J.J.W., Trebanos.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

—— GAN Y ——

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili)

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1910-04_10_4



Y Parch. J. HATHREN DAVIES, Cefncoedycymmer.

Ganwyd - - - Hydref 25ain, 1855.
Bu farw - - - Mawrth 12fed, 1910.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1910. [CYF. X. RHIF 4.

AR EDYN FFYDD.

Wele gwmwl arall eto
  Yn dy wybren Seion lân !
Llif dy ddagrau dros dy ruddiau ;
  Swn y 'storm sydd yn dy gân.

Swn ffarwelio sy'n dy emyn
  Drosto cyfyd tarth y glyn ;
Paid er hyny digaloni—
  Wedi'r nos daw boreu gwyn.

Caled dal o dan y gawod,
  Rhaid yw wylo, pan fydd ffrynd
O dy rengoedd, Ferch y Nefoedd,
  Unwaith eto wedi myn'd.

Daliodd ef dy ddwyfol faner
  Mewn gwroldeb trwy ei oes ;
Dyddiau gwynfyd, nosau adfyd,
  Bu yn ffyddlon was i'r Groes.

'Roedd y wawrddydd yn ei lygad,
  Mab doethineb ydoedd ef ;
'Roedd tynerwch a brawdgarwch
  A dyngarwch yn ei lef.

Ffrwyth ei fywyd oedd ei bregeth,
  Cynyrch aberth oes i gyd ;
Wedi planu rhos a lili,
  Adref aeth—a gwyn ei fyd.

Dysg i mi garedig Yspryd
  Fod yn ffyddlon byth i'r Gwir,
A gwasgaru gwawl Daioni
  Dros ei fedd i loni'r tir.—ALFA.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN HATHREN DAVIES, CEFNCOEDYCYMMER.

[Ganwyd Hydref 25, 1855, yn mhlwyf Talsarn, Ceredigion; addysgwyd gan y Parchn. W. Rees a R. C. Jones; Coleg Caerfyrddin 1873—1877; gweinidog Cefncoed 1877—1910; cadw ysgol 1877—1891; ail-adeiladu'r hen gapel 1895; Golygydd YR YMOFYNYDD 1888—1900; Ysgrifenydd y Gymanfa Ganu, 1888—1900, eto 1901; Athraw Cymraeg dan y Cynghor Sirol yn Merthyr Tydfil; Llywydd y Gymdeithas Undodaidd 1898—Ei anerchiad o'r Gadair ar "Safle a Gwaith ein Heglwys yn Nghymru"; Dethol mwyafrif yr Emynau yn "Perlau Moliant," 1896; Derbyn Tysteb a Phwrs Aur gan ei gynulleidfa 1900; Cyfieithu llyfr Armstrong "Yn ol at Iesu" 1903; eto Joseph Wood ar y Beibl—gweler YMOFYNYDD, 1909—1910; Aelod o'r Bwrdd Ysgol am dri thymor—ar ben y Pol bob tro; Aelod o Fwrdd Gwarcheidwaid Merthyr oddiar 1898 a'r Cadeirydd yn 1909; Aelod o Gynghor Dosbarth Cefn a Phenderyn—yn gadeirydd amryw weithiau, ac yr oedd hyn yn ei gymhwyso i osod J.P. ar ol ei enw pe dewisai, ond ni wyddom iddo wneud hyny erioed.]

HATHREN YN EI FEDD!

Dyna'r dull cyffredin o ymadroddi; ond nid wyf yn caru'r dull. Mae'n wir fod Hathren wedi ein gadael. Gadawodd ni mewn modd disymwth iawn, nawn Sadwrn, Mawrth 12, pan y syrthiodd yn farw ar yr heol, ar ei ffordd adref o Ferthyr. Y Mawrth blaenorol bu yn Broniestyn, wedi cerdded dros y mynydd, ac ymddangosai yn ei hwyliau goreu, yn siriol, yn hapus ac yn siaradus fel arfer. Achwynai beth ei fod yn dioddef oddiwrth ddiffyg treuliad. Er mwyn gwrthweithio effaith hwnw dywedir iddo gerdded rhyw 14 milldir trwy ddyffryn y Taf y dydd cyn ei farw, yn nghwmni gwr ieuanc o'r enw Thomas Lewis, un o aelodau ei eglwys. Dioddefodd lawer un amser oddiwrth *neuritis* (clefyd y giau) ac yn ddiweddarach oddiwrth glefyd y galon. Dywedir fod ei boenau ar brydiau yn arteithiol, ond o'r braidd y credwn iddo erioed sylweddoli fod perygl. Glynai trwy'r cyfan wrth ddyledswyddau'r eglwys a'i ddyledswyddau cyhoeddus, gyda'r canlyniad wrth bob tebyg iddo frysio'r terfyn. Gwasgarodd y newydd trist am ei farw gyda chyflymdra'r fellten nid yn unig trwy'r Cefn ond trwy'r holl fwrdeisdref nes peri prudd-der cyffredin, a chydymdeimlad dwfn a'r weddw a'r plant—tri bachgen a thair merch. Yr Iau canlynol gosodwyd y wisg weledig, wrth yr hon yr arferem ei adwaen—yn y bedd, yn mynwent H. D. Cwrdd, Cefncoed; eithr dim ond y wisg, dim ond y corff, yr hên dŷ o bridd yn yr hwn y trigianodd am 54 mlynedd ei oes ar y ddaear, hwnw'n unig osodwyd yn y bedd. Da fyddai i ni allu sylweddoli hyn, mai nid y corff yw y

dyn. Credwn fod geiriau'r hen lyfr yn berffaith wir—y pridd i'r ddaear fel y bu, yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Credwn yn ddiysgog fod Hathren heddyw yn fyw, yn fyw nid yn unig yn y dylanwad adawodd ar ol yn ei eglwys ac ar y Cefn a'r gymydogaeth yn gyffredinol; ond yn fyw yn holl gyfoethogrwydd ei bersonoliaeth ardderchog. Er wedi dianc o'n gafael ni, y mae eto yn fyw, yn fyw ac yn ddiogel o fewn gafael ac o dan ofal y Tad Goreu, yr hwn a garodd ac a bregethodd ac a wasanaethodd mor ffyddlawn mewn cynifer o ffyrdd yn ystod ei oes.

Hathren—dyna'r enw wrth yr hwn yr adwaenid ef, nid Mr. Davies. Yr oedd yn fwy agos atom na hyny. Mab ydoedd i David Davies (Deio'r Hwper), Cwmanne, un o brif ffyddloniaid yr achos yn Mrondeifi, yr hwn ar un Sul Cymundeb wrth ddychwelyd adref a syrthiodd ar yr heol fel ei fab, ac a fu farw bron yn union y dygwyd ef i'r tŷ. Collodd Hathren ei law yn y peiriant *chaffo* yn Velindre Rees. Clywsom ef lawer gwaith yn canmol ei feddyg, y Dr. Abel Evans, am ei garedigrwydd, ei ofal, a'i dynerwch, a'i fedrusrwydd, yn gwneud y goreu o'r gwaethaf dan yr amgylchiadau. Wedi iddo wella, fe ddeallwyd yn fuan fod yn rhaid bellach edrych i gyfeiriad arall am gynaliaeth; a phenderfynwyd gwynebu ar y weinidogaeth. Gweithiodd yn galed yn yr ysgol ac yn y coleg, fel y gwnaeth drwy ei oes gyda'i weinidogaeth a'i ysgol ei hunan. Yr oedd yn weinidog Cefncoed cyn ei fod yn 22ain oed. Dechreuodd felly yn ifanc ac yn bur ddibrofiad; ond fel y gellir dysgwyl i un o'i egni a'i yspryd ef, aeth rhagddo o flwyddyn i flwyddyn yn tyfu mewn gwybodaeth a phrofiad a gwasanaeth, fel y daeth i fod wrth bob tebyg y dyn helaethaf yn ei ddylanwad cymdeithasol o neb yn y cylch yr oedd yn byw ynddo. Dywedir yr adwaenai bob dyn ar y Cefn, a bod pob dyn ar y Cefn yn ffrynd iddo, nad oedd neb yn cael ei siomi oedd yn myned ato ef am gyfarwyddyd a help, fod dynion yn fynych yn fwy parod i fyned ato nag at eu gweinidog eu hunain, o bosibl am y tybient fod ei wybodaeth a'i allu yn fwy, a'i barodrwydd i wneud cymwynas yn ddiarebol. Oddiwrth hyn fe ddeallir mai nid dyn enwad oedd Hathren, yr oedd yn fwy nag enwad. Elai ei galon allan mewn cydymdeimlad at bawb a welai mewn angen. Ni alwai ei hun yn *Sosialydd*, ond dymunai fod yn Gristion, ac yr oedd bob amser yn fwy parod i roi nag i geisio a chael. Nid oedd dim yn hunan-geisiol yn natur Hathren.

Parotodd lawer o bobl ieuainc ar gyfer y weinidogaeth a sefyllfaoedd cyhoeddus eraill. Gweithiodd yn galed gyda hwy, nid yn unig yn yr ysgol ond hefyd y tu allan i oriau ysgol, hyd ganol nos ac weithiau hyd oriau bach y bore, ac er ein bod yn ofni fod llawer o'r rhai hyn wedi anghofio neu anwybyddu'r ffaith, ni chlywsom ef erioed yn achwyn. Clywsom fod tri brawd, hen ysgolheigion iddo, yn yr angladd, ac i'r pedwerydd dreio dod a methu cyrhaedd hyd ar ol yr angladd. Un o'r pedwar brodyr hyn oedd ei feddyg, y Dr. Llewelyn Jones. Yr oedd yn llwyr ymwrthodwr o'i febyd, ac o argyhoeddiad, a cheid ef yn eu hwyliau goreu pan yn areithio neu yn pregethu ar y

pwnc. Gwelir aml i draethawd o'i eiddo yn ymdrin â'r pwnc yn Yr Ymofynydd.

Ar ddydd yr angladd (Iau) fe ddaeth tyrfa yn nghyd na welwyd ei thebyg yn fynych os erioed ar y Cefn. Cynrychiolid pob dosbarth yno, cyfoethog a thlawd, enwog a dinod; y gwahanol fyrddau y perthynai efe iddynt; gweinidogion ei enwad ei hunan, rhyw 13 o honynt, yn nghyd a lluaws o'n gwahanol gapelau; y Parch. Rhoslwyn Davies, o'r tu hwnt i Manchester 50 milltir; Rheithor y Cefn a dau giwrad, a holl weinidogion y Cefn o bob enwad, ac amryw o Ferthyr, &c.

O blith ein gweinidogion, gwelwyd y rhai canlynol yn bresenol—R. J. Jones, M.A., R. C. Jones, Melchisedec Evans, D. G. Rees, T. Arthur Thomas, Alfa Richards, Simon Jones, B.A., E. O. Jenkins, J. Park Davies, B.A., B.D., J. P. Kane, D. Rhoslwyn Davies, E. R. Dennis, a Mr. J. Carrara Davies, heblaw llu o weinidogion perthynol i'r holl enwadau na adwaenem mo honynt.

Yn y tŷ, darllenwyd a gweddiwyd gan ei hen athraw, y Parch. R. C. Jones; ac yn y capel gan y Parch. M. Evans, cydfyfyriwr yn y coleg; yna dywedodd Mr. Thomas Lewis dros y teulu eu bod wedi derbyn dros 80 o lythyron cydymdeimlad a dau bellebyr. Cafwyd llythyron oddiwrth y Meistriaid Edgar Jones, A.S., Keir Hardie, A.S., a Sidney Robinson, A.S. Hathren oedd y cyntaf i broposo Mr. Robinson cyn yr etholiad diweddaf. Darllenwyd y pellebrau, un oddiwrth Mr. G. Eyre Evans a'r llall oddiwrth y Parch. Rd. Jones, Llandinam. Yr oedd y llythyron yn rhy hir i'w darllen. Ar ol hyny cafwyd anerchiadau gan R.J.J., y Parch. E. Walter Thomas (A.), Tonypandy, brodor o Lanbedr a gweinidog ar y Cefn am ddeng mlynedd, a'r Parch. John Thomas (A.), Zoar, cydfyfyriwr yn y coleg.

Ar lan y bedd traddodwyd anerchiad gan y Paach. J. Henry Davies (B.), a chan Mr. James, Maer Merthyr, a darllenodd Alva res o benillion swynol a phrydferth, y rhai a welir yn y rhifyn hwn o'r Ymofynydd, ac aeth i weddi. I derfynu fe ganodd y Vaynor Philharmonic Society yr anthem—"Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn" yn deimladwy. Yn y fel yna y terfynodd gwasanaeth angladdol ein cyfaill anwyl Hathren Davies. Ac yn awr ein dymunad a'n gweddi yw ar i'r Arglwydd o'i drugaredd daenu ei aden warcheidiol dros y weddw a'r amddifaid. Bendithied hwy a'i ras, arweinied hwy yn ei gariad, a galluoged hwy i fyw mewn heddwch a'u gilydd—y weddw i fod yn ddoeth a'r plant bob amser yn ufydd ac ewyllysgar.

Carasem roddi brasnodiad o'r anerchiadau, ond y mae yn fwy nag a allwn wneud. Rhedent oll ar hyd yr un llinellau. Er cydnabod fod i'r ymadawedig ei ffaeleddau fel pob dyn arall, dangoswyd awydd yn hytrach i osod pwys ar ei rinweddau, y rhai oeddynt mor lluosog ac mor rhagorol. Nid yn fynych y gwelwyd dyn wedi llanw ei fywyd mor llawn o wasanaeth i'w gyd-ddynion ac felly i'w Dduw ag a wnaeth Hathren—gwasanaeth gwleidyddol, cymdeithasol a chrefyddol. Y mae pob gwasanaeth i ddyn yn wasanaeth i Dduw. Meddyliai Mr.

E. W. Thomas yn uchel iawn o hono, ac yr oedd dwy adnod wedi ymgynyg i'w feddwl wrth ddyfod i'r angladd. Edrychad y darllenydd am danynt a sylwed ar y cysylltiad. Geiriau Dafydd am Jonathan—Cu iawn fuost genyf fi.—2 Samuel 1: 26; Eliseus ar ol colli golwg ar Elias—Cerbyd Israel a'i farchogion.—2 Bren. 2: 12.

Dangosodd Mr. Thomas, Zoar fawredd Hathren yn y ffaith y gallai ymostwng i gyflawni dyledswyddau bychain bywyd, pethau y byddai rhai dynion yn ei ystyried yn ddiraddiad i'w gwneud. Y gwaith naturiol iddynt hwy yw cyflawni'r pethau mawrion, pethau dangosiadus, pethau fydd yn tynu sylw ac yn creu son am danynt. Ond lle byddai pawb yn pallu, yr oedd Hathren yn barod, ac fe'i gwnai—y peth distadlaf. Yr oedd yn was i bawb; ni apelid ato ef yn ofer. Ac y mae hyny yn ardderchog canys wedi'r cwbl nid yw bywyd ond cynulliad o bethau bychain.

Gwahaniaethai Mr. Thomas oddiwrtho yn ei dduwinyddiaeth; ond gallai Hathren wahaniaethu mewn opiniwn heb wahaniaethu dim mewn teimlad. Yr oedd ganddo ei opiniynau ei hunan, a gallai roddi ei resymau drostynt, ond nid oedd ynddo ddim fyddai byth yn oeri cariad ac yn lleihau'r teimlad da ddylai fodoli'n wastad rhwng Cristionogion a'u gilydd.

R.J.J.

HATHREN FEL DYN.

His life was gentle and the elements
So mixed in him that Nature might stand up
And say to all the world "This was a man."
—*Julius Caesar.*

Pan ofynodd yr hynaws olygydd i mi gyfranu erthygl byr ar y diweddar Barch. J. Hathren Davies "fel dyn," cydsyniais ar unwaith gan gredu ar y fynud mai gwaith rhwydd fyddai hyny. Ond wedi eistedd i lawr am enyd teimlaf mai nid gorchwyl hawdd ydyw. Mae dyn yn greadur mawr. Ac yr oedd Hathren yn ddyn mawr—yn ddigon mawr i'w weled, ond rhy fawr i'w ddarnodi a'i esbonio gydag unrhyw fanylder. Ond gwnawn ein goreu mewn gofod mor fechan i ddangos y dyn mawr hwn sydd wedi ei gymeryd ymaith mor sydyn o'n plith. Os gall y darllenydd caredig ddeall yr hyn wyf am gyfleu dywedaf i ddechreu ei fod yn ddyn *dynol* iawn. Mae ambell ddyn wedi colli ei hun mewn swyddog, neu mewn galwedigaeth; ond gellir dweyd am ein gwrthrych yn ngeiriau Pope: "A minister, but still a man." Meddai ysbryd hynaws, natur garedig, calon fawr,

a gwyneb siriol, yr hyn a'i gwnai yn bosibl i bawb o bob gradd, sefyllfa ac oedran fyned yn agos ato. Ni allasai efe fod yn mhell oddiwrth neb. Yr oedd Natur wedi rhoddi iddo ddynoliaeth fawr, garedig, ac yr oedd hyn mor amlwg i'w gydnabod fel y teimlai pawb fod ganddynt rhyw gymaint o hawl arno. Gofynid ei farn, a derbynid ei gynghor, a dilynid ei gyfarwyddyd bron yn ddieithriad. Nid yw hyn yn golygu ei fod uwchlaw beirniadaeth. Cafodd ei farnu droion yn ein cof. Ond gwelwyd peth fel hyn yn cymeryd lle fwy nag unwaith, fod y rhai oedd yn ei gondemnio heddyw, yn rhedeg ato yfory i ofyn ei gyfarwyddyd a'i gymhorth. Yr oedd yn, a thrwy y pethau hyn wedi gwneud ei hun yn angenrhaid i'r gymydogaeth, a theimlwn yn ngwyneb ei farwolaeth sydyn yn barod i ddweyd "I ba beth y bu y golled hon?" Ond gwelodd y Meistr yn dda ei gymeryd ymaith, ac mae yr ardal lle y bu ein cyfaill yn llafurio am gymaint o amser heb yr un "Davies yr Hen Dŷ Cwrdd" i redeg ato yn eu haml a'u gwahanol ofidiau a phryderon.

Yr oedd yn ddyn o syniadau clir a delfrydau uchel ac egwyddorion cryfion. Gwnai hyny ef yn ddyn i sefyll gyda'i ochr a'i blaid. Gwyddai pawb pa ochr a gymerai efe bob amser, ond fel y dywedwyd eisoes yr oedd yn *ddyn* mor fawr, nes ei wneud yn fwy na phlaid, a'r canlyniad oedd y perchid ef gan ddynion yn meddu ar syniadau hollol wrth-gyferbyniol i'w eiddo ef. Gwyr y rhai oedd yn ei adnabod yn Nghefncoedycymmer mai gwir hyny, oblegid cafodd hyn ei ddangos fwy nag unwaith yn ystod y blynyddoedd diweddaf. Pan y cyflwynwyd iddo Anerchiad a chôd o aur ychydig flynyddoedd yn ol, cyfranwyd at y dysteb gan bersonau o *bob* credo yn dduwinyddol a gwleidyddol; a phan yn talu y deyrnged o barch cyhoeddus iddo, yn yr Hen Dŷ Cwrdd, yr oedd y gwahaniaethau i gyd wedi eu hanghofio, yn unfrydedd y farn o haeddiant ein gwrthrych o'u hedmygedd a'u parch. Gwyddai llawer nad allent dderbyn ei ddaliadau crefyddol, a gwleidyddol. Ond gwyddai pawb hefyd "ei fod yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddo." Yr oedd yna un peth arbenig yn perthyn iddo na ddylid ei anghofio yn yr ysgrif yma, sef ei fod yn "Ddyn dynion ieuainc." Wrth gwrs nid oedd mor ieuanc o ran blynyddoedd ag y bu. Yr oedd amser er's rhai blynyddoedd wedi dechreu gadael ei nodau arno. Ond yr oedd ei ysbryd yn dal yn ieuanc. Nid oedd heb feddu y cydymdeimlad llwyraf a'r hen, ac o bosibl y teimlai yr *hen bobl* mai eu *dyn* hwy ydoedd. Sicr yw y credai y bobl ieuainc ei fod yn un o honynt *hwy* beth bynag. Cafwyd arwydd o hyny ar ddydd ei angladd, yn y ffaith fod y Côr Undebol wedi dod allan i dalu eu teyrnged olaf ac i ddangos eu parch iddo trwy ganu yn ei angladd. Yr oedd ein cyfaill yn aelod o'r côr—côr o bobl ieuainc—ac yntau mor ieuanc, ei ysbryd beth bynag, ag un o honynt. Yr oedd ganddo dyrfa o bobl ieuainc bob amser o'i gwmpas—rhai oedd efe wedi fagu a'u dysgu, a'u cyfarwyddo, a llawer o honynt erbyn hyn yn llanw cylchoedd anrhydeddus yn yr ardal. Gallesid dweyd llawer am dano fel cyfaill. Profodd ei hun felly ganwaith i'r ysgrifenydd yn ystod y deng mlynedd y buom yn gymyd-

ogion, ac yn cyd-lafurio fel gweinidogion. Ond rhaid ymatal, gan y deallwn fod eraill yn anfon ysgrifau ar ein gwrthrych. Dywedwn hyn am dano. Yr oedd ganddo lawer iawn o gyfeillion, am y rheswm ei fod wedi profi yn gyfaill trwyadl i laweroedd. Sylweddolwn ein colled fawr mor fuan a hyn, er mor anhawdd sylweddoli fod "ein cyfaill Hathren yn huno." Nid yw wedi *marw*. Bydd efe byw i ni tra byddom ninau byw. Maddeued y darllenydd hynaws am ysgrif mor fechan a gwael am ddyn mor fawr a da. Os oedd beiau yn perthyn iddo, ac yr oedd yn ddiamheu fel i bawb dynion, dywedwn wrth derfynu

"He was a man take him for all in all,
I shall not look upon his like again."—*Hamlet.*

"His tribe were God Almighty's men."—*Dryden.*

Tonypandy. E. WALTER THOMAS.

"MEWN ANGHOF NI CHANT FOD."

Yn hanes pob oes a chenedl, yn hanes pob cymydogaeth ac eglwys, mae yna rai cymeriadau wedi byw ag y gellir dweyd am danynt yn mrawddeg Ceiriog, "Mewn anghof ni chânt fod"—cymeriadau ag ydynt er wedi marw yn llefaru eto, ac weithiau yn llefaru yn fwy grymus a gafaelgar na phan oeddynt yn trigianu ar y ddaear. Un o'r cymeriadau na cha' fyn'd yn anghof oedd Mr. Hathren Davies. Marw i fyw wnaeth —marw i lefaru eto ac i gael gorsedd sicrach mewn llawer i galon. Gellir dweyd am dano yn ngeiriau Ben Bowen am ei dad :—

"Ond er yn farw mae eto'n fyw,
Mwy byw ni bu erioed."

Dyna deimlem yn ei angladd—braidd y mwyaf a'r parchusaf a welais erioed —teimlo mai marw i fyw wnaeth—teimlo ei fod wedi ffarwelio ac eto ei fod yn aros. Teimlem ei fod wedi ei golli wrth sylwi ar wynebau a gwrando ar eiriau y dorf fawr ddaeth yn nghyd "i dalu iddo y gymwynas olaf." Ond dywedai y gwynebau a'r geiriau hyny mai byw ydoedd—efallai yn fwy byw nac erioed i laweroedd o honynt.

Crogwyd llawer telyn ar yr helyg yn herwydd colli Hathren Davies : mae llu o galonau yn teimlo'n hiraethlon ar ei ol. Mae yna deulu'n galaru ; mae yna gynulleidfa yn teimlo'n amddifad ; mae yna gymdeithasoedd lawer a phobl lawer yn teimlo'n drallodus am fod gweithiwr caled, arweinydd ffyddlon a chyfaill twymgalon, wedi ei symud o'u plith.

Yr oeddwn yn adnabod Hathren Davies yn dda, ac yn adnabod ei rieni, yn enwedig ei dad, darlun o'r hwn a saif megys o flaen fy llygaid y funyd hon. Ei dad oedd Gamaliel Ysgol Sul Brondeifi pan oeddwn i yno, a bum yn eistedd wrth ei draed am rai blynyddau. Athraw yn enill

serch ei ddosparth oedd Dafydd Davies, a dyn ag yr oedd ei bresenoldeb yn cynyrchu awyrgylch ag oedd yn gynorthwyol iawn i waith yr Ysgol Sul. Siaradwr i bwrpas, gweddïwr llawn a thaer ydoedd ; ac os nad yw sylwedd ei weddïau yn aros ar fy nghof, mae swn ei lais, dull ei barabl, a dylanwad ei weddïau yn aros o hyd. Gwn fod rhan o honof wedi cael ymborth lawer tro yn swn ei weddïau, ac mae ei goffadwriaeth yn aros i mi, megys ag i lawer eraill, yn arogl bywyd i fywyd.

Yr oedd Hathren yn ddarlun o'i dad, wedi ei adeiladu ar ei lun a'i ddelw—braidd na ddywedwn mai ei dad ar *scale* o fwy ydoedd. Cerddai fel ei dad ; ysgydwai law fel ei dad. Yr oedd parabl, gwyneb, ac yspryd ei dad megys yn byw, symud a bod ynddo.

Yr oeddwn wedi arfer credu fod Hathren Davies yn ddyn pwysig a pharchus yn ei gymydogaeth, ond ni wyddwn ddim o'r haner—os gwn eto—hyd ddydd ei angladd. Bu y dydd hwnw yn ddydd o ddatguddiad i mi : cefais olwg newydd, lanach arno o lan ei fedd, a deallais fod Cefncoed a'r cwmpasoedd wedi colli un o'r cymeriadau a hoffent fwyaf — wedi colli un a ystyrid yn bregethwr galluog a gafaelgar, gweinidog ymroddgar, cymydog llawn o yspryd tosturi a chydymdeimlad, a dyn lanwodd gylchoedd pwysig yn mywyd cyhoeddus y cymydogaethau gydag ymroddiad a ffyddlondeb mawr.

Dydd ei angladd cefais arwyddion amrywiol ei fod wedi enill iddo ei hun barch mawr a lle cynes yn nghalonau y bobl, a gwnaeth hyn i gyd yn nerth ei gymeriad. Nid oedd ganddo ddim arall i'w helpu — nid cyfoeth enillodd iddo ei orsedd. Nid oedd y ffaith ei fod yn Undodwr yn help iddo — ond yn hytrach yn rhwystr—i sicrhau parch ac enw da. Yn nerth didwylledd, diwydrwydd, gonestrwydd ac unplygrwydd ei gymeriad y cerddodd efe i serch a chalon y bobl.

Cymeriad llawn, amlochrog, oedd ei eiddo ef. Dyn ymarferol oedd Hathren Davies, yn edrych ar bobpeth o safbwynt profiad a gwybodaeth ymarferol. Yn ddiameu, yr oedd yn ddarllenwr helaeth, yn fyfyriwr craffus ac ysgolhaig disglaer, ond pan fyddai yn pregethu neu siarad nid oedd y darllenwr a'r ysgolhaig yn cael dangos eu hunain. Daliai Hathren Davies ei hun yn nerth ei brofiad a'i reswm a'i wybodaeth bersonol i anerch y gynulleidfa. Yr oedd y gallu ganddo rywfodd i weithio pobpeth i fewn i'w gyfansoddiad meddyliol a moesol, gan eu gwneud yn rhan o hono ei hun. Dychmygaf ei glywed yn traddodi rhai o'i bregethau yn awr ; clywaf y brawddegau yn cael eu tori yn gwta a diseremoni, weithiau braidd yn aneffeithiol, bryd arall i helpu y frawddeg a'r syniad fyn'd yn syth i feddwl a chalon ei wrandawr. Pregeth i'w chofio 'n hir oedd yr un draddodod yn y Cribyn ar "Dafydd a chwant dwfr o ffynon Bethlehem." Pregeth gelfyddydol, yn dangos meddwl clir ac yspryd trefn oedd y bregeth ar "Os." Pregeth ac ymresymwr yn amlwg ynddi oedd hono ar "Y pechod anfaddeuol." Pregeth gyfoethog ac ymarferol oedd ei eiddo ar "Ni pherffeithir hwynt hebom ninau." Pregeth a son am dani—plentyn yr ugeinfed ganrif o ran ei nheges a'i delfryd—oedd y ddiweddaf glywais ganddo ar "Megis yn y nef" ; ond yr wyf bron a chredu mai y dlysaf i mi—y dlysaf mewn yspryd a gwisg a thraddodiad — oedd ei bregeth ar "Y Drws agored." Pregeth calon a theimlad oedd hon — pregeth a Hathren Davies yn fyw ynddi. Dim ond unwaith y clywais hi, a hyny yn Clydach Vale rhyw saith mlynedd yn ol. Bum lawer gwaith yn disgwyl cael ei chlywed drachefn, ond ni chefais fy nymuniad.

Dywedodd un o'r siaradwyr dydd ei angladd "ei fod yn fawr mewn pethau bychain." Hawdd credu hyny. Yr oedd pob pregeth a glywais ganddo yn dwyn tystiolaeth i hyn. Mor dwt, cynwysfawr a thlws oedd yr oll o honynt. Rhoi mesur da, dwysedig wnai ef, a dim un gair dros ben.

Cymerai ormod o le i mi i son am ei wasanaeth gwerthfawr fel ysgolfeistrac fel golygydd YR YMOFYNYDD a gohebwr cyson. Gwn y gwna arall ysgrifenu yn fwy cyflawn nag sydd bosibl i mi.

Peidio galaru nis gallwn. Bydd ein Cyfarfodydd Chwarterol yn wâg heb ei gwmni ef. Collwyd ef yn ngogoniant ei ddyddiau, pan oedd ei oedran wedi ychwanegu at ei werth a'i ddefnyddioldeb i ni fel enwad ; ac eto nid achos i alaru yn unig sydd genym, ond achos i ddiolch hefyd—achos i ddiolch am y blynyddoedd gafodd i'n cynorthwyo a'n gwasanaethu, ac am y talentau a'r ffyddlondeb mawr ddangosodd er cyfoethogi gwasanaeth y blynyddoedd hyn.

Erys eto yn gynorthwywr i ni. Erys ei waith yn gofgolofn iddo ; erys ei ddylanwad i sobreiddio a chrefyddoli cymdeithas ; erys ei goffadwriaeth yn anwyl a chysegredig, ac fe erys ei enaid yn y cartref fry i'n disgwyl ar ei ol.

E. O. JENKINS.

Llwynrhydowen.

CWYN AWEN UWCHBEN BEDD HATHREN.

Diffoddodd haul a'i berlog fflam,
A chiliodd lloer a seren
Gobeithion plant a chalon mam
Pan y machludodd Hathren.

Dros lwyni'r Cefn taen galar mawr,
O Ferthyr ffodd yr heulwen,
A daeth y nôs i byrth y wawr
Pan y bu farw Hathren.

Yr eglwys fel amddifad sydd,
Gruddfana fel colomen ;
Daeth canol nôs i'w chanol dydd
Pan cauodd llygaid Hathren.

Yr Enwad blyg fel gweddw flin
I gwynfan îs yr ywen ;
Mae emyn dwyster ar ei min
Uwch sydyn feddrod Hathren.

Daeth 'storm o drallod dros y wlad,
Mor ddu ! mor wlyb ei haden !
Mae calon cenedl mewn pruddhad
Wrth orfod claddu Hathren.

Mae ocheneidiau'n dymhestl gref
Yn golchi y dywarchen
Orchuddia wyneb proffwyd nef—
Yr ardderchocaf Hathren.

Ond trwy'r ystorm a'r dduaf nôs
Fe glywaf eos lawen
Yn pyncio nodau alaw dlos
Uwch coffadwriaeth Hathren.

Nid marw ydyw Prophwyd Duw,
"O"! na," medd pob briallen
Sy'n euro porth pob gwanwyn byw—
Nis gellir bedd i Hathren.

Mae'r gwanwyn heddyw yn y glyn
Yn siarad ymhob deilen—
Fel cododd Crist o'i fedd yn wyn
Fe gyfyd nerthoedd Hathren.

O ! cofia'r plant fy Nhad, fy Nuw,
O dan y brudd helygen ;
A chofia am y weddw friw
Sy'n gorfod byw heb Hathren.

Bydd Di, O ! Dad yn dwr i'w dal
A'u cynal ymhob anghen,
A chymhorth ni i gyd-ymddwyn
Er mwyn y ffyddlon Hathren.

Cawr cyfwerth, câr y "Cefen" ;—
Werinwr !
I'w enwad bu'n heulwen ;
A gloew was Gwalia wen
Yn ddieithriad oedd Hathren.

Areiol mawr yw'r wylo—O ! Hathren,
Dieithriol ffarwelio !
Uwch ei lwch a'i wely o
Ei fwyn genedl fyn gwyno.

Gellionen. ALFA.

PREGETH

A draddodwyd gan y diweddar Barch. J. Hathren Davies yn Nghyfarfodydd Chwarterol y Ciliau, Hydref 14, 1909.

" Megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd."—*Luc 11 : 2.*

Mae eglwys Crist yn yr oes bresenol wedi ei sylfaenu nid ar bab nac ar Pedr ond ar yr egwyddor o gymdeithas, ar y wyddor o gyfiawnder cymdeithasol, y wyddor sydd yn gwadu hawl y cryf i osod eu beichiau ar y gwan. Nid oedd yr Iesu wedi ymroddi i

RYW DDUWIOLDEB DILES

ag oedd yn breuddwydio byth a hefyd am fyd arall, ond yr oedd yn ymgyflwyno yn hollol i'r byd hwn ac i'r gwaith mawr oedd yn aros i gael ei gyflawni. Nid oedd ganddo fwy o grefydd ffurfiol buritanaidd nag oedd gan y rhosynau gwylltion ar y berth, neu gan yr ehedydd oedd yn canu mor swynol foreu Sul a phe buasai yn ryw foreu arall o'r wythnos. Daeth gan fwyta ac yfed. Cymerodd ei le gyda'r gweithwyr, a theimlai ei fod yn un a hwynt yn eu holl ofidiau a than eu holl groesau. Cofleidiai bawb dynion yn ei freichiau. Llefarodd yr oraclau hyny o drugaredd fywiog y mae calon gyfoethog y nef yn llifo drosodd ganddo : " Anwylyd yr awr hon meibion i Dduw ydym."

Dyma beth oedd crefydd Crist. Llafuriodd a dyoddefodd er mwyn dwyn pob daioni a gogoniant, pob nerth, pob melusder ac hapusrwydd i'r bywyd ac i'r byd y mae dyn yn llafurio ynddo heddyw. Gwelodd fod y gweithwyr wedi eu pentyru at eu gilydd, fel y maent heddyw, mewn *slums* ac *alleys*, mewn tai afiach lle yr oedd twymynau a haint yn rhwym o ddod. Ceisiodd efe eu dwyn nhw allan i fyw o dan awyr agored Duw, ac i fwynhau y bendithion y mae'r Tad goreu yn gawodi ar ei blant. Safodd efe i fyny drostynt, nid fel offeiriad, ond fel cyd-weithiwr. Aeth allan, nid fel esgob neu brelad, ond fel athraw, fel un yn iachau, fel gweithiwr, fel brawd.

Darfu i'r sawl oeddynt yn derbyn elw oddiwrth y *system* ormesol—y cyfoethog, y segurwyr, y *parasites*, y *gamblers*, y *respectable* hunangar—y gwyr llygredig a honent fod yn grefyddol—ei osod ef i farwolaeth.

Ar ol treigliad yn agos i ddwy fil o flynyddau mae yn syndod meddwl fod amgylchiadau yn aros bron yr un fath o hyd. Pan bwy i'n darllen hanes y gwr cyfoethog a'r cardotyn, a phan bwy i'n gofyn beth yw ei ystyr, rwy'n cael mai y wers yw y dylem ni gymeryd dyddordeb yn mhawb fel y gwnelai'r Iesu. Ni ymddengys fod y gwr cyfoethog yn ddyn drwg. 'Doedd dim niwed yn ei fod yn gyoethog, nac yn ei fod yn mwynhau ei gyfoeth : 'Doedd e ddim gwaeth na ni. Chymerai efe yr un dyddordeb yn y cardotyn. 'Doedd e'n hidio gronyn fod Lazarus yn gorwedd wrth ei borth yn llawn cornwydydd. 'Dyw Lazarus ddim yn gorwedd wrth ddrws ffrynt ein ty ni heddyw, oblegyd gwnai y *police* ei symud ef, ond mae yn gorwedd yn y stryd nesaf, mewn seler neu *garret*. Yr hyn oedd yn eisieu ar y goludog oedd cael ei wneud i deimlo fod hyn yn fater iddo fe ; yr oedd yn rhaid iddo oddef, er mwyn dysgu y wers yma. Gorfu arno fyn'd i uffern er ei les ei hun.

Fe wyddai yr hen Virgil wirionedd y ddeddf hon pan y mae yn peru i Dido ddweyd " 'Rwyf wedi dyoddef fy hun, ac mi allaf dosturio wrth y sawl sy'n dyoddef." Allai y goludog ddim tosturio wrth eraill hyd nes iddo ddyoddef ei hunan. Yr oedd wedi dechreu dysgu y cydymdeimlad

hwn. Cofiai am ei frodyr. Fe ddysg Duw i ni yn ei ddaioni gydymdeimlad ag eraill trwy boen, os na allwn ddysgu mewn rhyw ffordd arall. Mae *typhoid fever* yn dyfod, yn rhybudd ofnadwy, a dywed, "Os ydych yn caniatau i dlodion eich pentref i farw o ddiffyg glanweithdra a *drainage* briodol, mi ddysga i chwi, eu bod yn frodyr i chwi trwy anfon marwolaeth o'u cartrefi hwy i'ch cartrefi chwi." Rhaid i ni ddysgu'r wers hon o'n bodd, neu o'n hanfodd.

Dysg yr Iesu ni y gallwn ni weled Duw yn unig yn ol fel y gwelwn ni Ef mewn dyn, y gallwn ni garu Duw yn unig yn ol fel yr ydym yn ei garu mewn dyn. Mae "Cariad at Dduw mewn cariad at Ddyn" yn golygu cariad at Dduw mewn dyn. Yn *arithmetic* y nefoedd mae y ddau yn un. Golyga Duw y dwyfol ynoch chwi. Mae pob dyn yn sill o'r gair sydd wedi ei lefaru; a'r Duw a fydd i waredu yr hil anffodus hon o bob dyoddefaint, o bob tlodi a drwg, yw y da sydd wedi ei ddihuno yn nghalonau y bobl. Addoliad yw nid llefain 'Arglwydd, Arglwydd," ond helpu'r gwan a chodi y syrthiedig. Mae Duw wedi ymgnawdoli mewn dyn, mewn benyw. Ceisiwch ef yno, fethwch chwi ddim o'i gael Ef, ac etifeddu bywyd tragwyddol. Ein holl ddyledswydd grefyddol ni yw parchu y natur ddynol a'i gwasanaethu. Peidiwch gwastraffu eich anadl i ofyn i Dduw i fod yn drugarog—cystal i chwi weddio ar yr haul i roi goleuni. Mae crefydd Crist yn golygu cael gafael ar Dduw mewn dyn. Gwasanaethu a charu *Duw* wrth wasanaethu a charu *dyn*. Yr unig Dduw yr edrychodd dyn erioed i'w wyneb oedd gwyneb rhyw gyd-ddyn anghenus yn dyoddef. Yr unig Dduw a welwch chwi neu finau byth yw y Duw sydd yn ymgnawdoli bob moment yn mherson ac anghenion pob plentyn o'i eiddo. Yr unig gyfle a gewch chwi byth i addoli a gwasanaethu Duw a orwedd o'ch blaen chwi bob dydd yn yr alwad uchel sydd yn dyfod atoch i ddyrchafu eich cyd-ddyn. Mae gwasanaeth brawdol i'r dyn sydd wrth eich penelin yn eich dwyn chwi wyneb yn wyneb a Duw. Mae bod yn ddysgybl i'r Iesu yn golygu dau beth—cysegru ein bywyd i ddyn, a chyflwyno ein bywyd i achos dyn—dau beth a'r ddau un ydynt.

Mae pob gwaith yn syrthio yn ol ar y gweithiwr; mae ei effaith mewnol yn ol yr ysbryd yn yr hwn y mae'n gweithio.

Os yw dyn yn enill arian er eu gwario nhw i gyd arno'i hunan, a fydd i'w waith ei helpu gymaint a phe buasai yn cael ei gadw wrth ei waith gan gariad at ei wraig a'i blant? Pan mae meddwl, a serch ac ewyllys yn chwareu rhan yn ei oruchwylion onid yw e'n arwain bywyd gwell? Edrychwch ar y *tramp* proffesedig, yn byw heb un rhagfeddwl, heb un ddyfais, na serch, na dyddordeb. Mae yn crwydro o amgylch, neu yn gorwedd hyd nes bo eisiau bwyd arno, yna mae yn ceisio codi i edrych am fwyd. Mae olwynion ei feddwl yn symud yn araf iawn —'does yna yr un ysgogydd nerthol yn ei gymhell yn y blaen.

Ond edrychwch ar y dyn ifanc sydd wedi glanio am y tro cyntaf mewn gwlad newydd. Mae yn gweithio yn galed a'i gaib a'i raw, ond yn nghanol ei ludded mae ei ddychymyg yn ymweithio i'r lan i diriogaeth yr anweledig. Mae yn goddef y rhaw, ac yn ymostwng i holl dreialon hinsawdd anghyfarwydd iddo, yn y disgwyliad hoffus am y dydd y daw yr hon a fu yn cyd-chwareu ac yn cyd-ysgolia ag ef yn yr hen wlad, dros y môr ato, ac y byddant eill dau yn berchen ar eu tŷ bach eu hunain, a gardd yn llawn o flodau, a rhywbeth tucefn i roddi addysg i'r angel o blentyn a roddir iddynt. Trwy y breuddwyd yma mae y dyn ifanc yn ymddal yn nghanol ei unigedd a'i dlodi; trwy y breuddwyd yma mae yn cael y trechaf ar ei nwydau, ac o'r diwedd, trwy nerth y breuddwyd dyrchefir ef i safle gwladgarwr a dinesydd teilwng.

Nid cartref diogi yn y nefoedd yw teyrnas Dduw neu deyrnas nefoedd. Teyrnas o gyfiawnder cymdeithasol

ar y ddaear yw. Yn y gyfundrefn newydd yma o gymdeithas, perthynas dynion a Duw yw y berthynas o feibion, ac y maent yn frodyr y naill i'r llall. Rhaid i'r gweiniaid gael eu hamddiffyn, ac nid eu gwasgu gan y cryf; rhaid i'r tlodion gael eu helpu, nid eu hysbeilio gan y cyfoethog. Ymddiriedwch yn Nuw fel Tad cariadus, a gwnewch dda i'ch cyd-ddynion, meddai'r Iesu, a disgyn tangnefedd melus y nefoedd ar eich eneidiau. Gwnewch fel yr wyf fi yn gwneud, a chewch wybod fod fy addysg yn ddwyfol; oblegid ffrwyth gwir grefydd yw gweithredu yn iawn.

Mae nefoedd yr Iesu yma 'n awr, mewn tangnefedd melus a bywyd o frawdgarwch—nid mewn ystrydoedd o aur, nac mewn pyrth o berlau drud, nid seintiau yn gwaeddi, telynau yn chwareu, nid caniadau diddiwedd, ac haleliwia fyddarol. Mae ei uffern hefyd yma 'n awr yn mhob gweithred isel o hunan-elw a thrachwant. Mae hen efengyl brydferth y Proffwyd o Nazareth, wrth gael ei chario o'r pwlpud y mae pob dylanwad er da wedi ymadael ag e' i'r heol i'w gwneud hi yn ymarferol yn mysg y werin, yn ein dysgu ni, cyhyd ag yr erys un dyn gonest yn y wlad heb ddigon i'w fwyta, na ddylai neb gael mwy na digon. Mae yna agendor mawr yn bodoli rhwng gwahanol adranau cymdeithas heddyw. Mae y brotest yn erbyn anghydraddoldeb hollol a esyd Shakespeare yn ngenau Shylock yn wir am ragor o bethau nag hiliogaeth, a gellir ei chymhwyso yn gyffredinol. "Iuddew wyf fi. Onid oes gan Iuddew lygaid? Onid oes gan Iuddew ddwylaw, synwyrau, serchiadau, nwydau? Oni phorthir ef â'r un bwyd; oni chlwyfir ef gan yr un arfau; onid yw yn agored i'r un clefydau, yn cael ei wella trwy yr un cyfryngau? Oni wresogir ac oni oerir ef gan yr un haf a gauaf a'r Cristion? Os brathwch ni, onid ydym yn gwaedu? Os ydych yn ein goglais, onid ydym yn chwerthin? Os gwenwynwch ni, onid ydym yn marw? ac os gwnewch gam â ni, oni ymddialwn?"

I lawr obry yn ein natur gyffredin ni mae cydraddoldeb nas gall dim ei gyfnewid na dim ei ddifodi. Mae'n cysylltu'r ysgolor â'r ffol, y gweithiwr â'r tywysog. Yn y cysgod a'r tês, yn nhristwch a llawenydd bywyd, mae ein gwahaniaethau, hyd yn oed y mwyaf hynod, yn ymdoddi i'r dim; ac yr ydym yn teimlo ar y tir hwnw, pe yn unman arall, "Y tlawd a'r cyfoethog a gyd-gyfarfyddant, yr Arglwydd yw gwneuthurwr y rhai hyn oll."

'Rwy'n cydnabod fod galluoedd yn amrywio, manteision naturiol yn wahanol. Mae un yn gryf, y llall yn wan; un yn gyflym ei ddeall, y llall yn *slow*; mae gan un dalentau sydd yn warant i lwyddiant y llall heb ddim o'r fath beth. Megir y plentyn hwn yn nghanol digonedd, y llall mewn dygn dlodi; megir un mewn cartref rhinweddol, y llall mewn twlc o dŷ, llwon a rhegfeydd yn ei süo i gysgu yn y nos ac yn ei ddihuno yn y boreu. Ceisiai addysg yr Iesu lefelu y gwahaniaethau hyn, ac mae *Socialism* Gristionogol yn golygu p'un ai tlawd neu gyfoethog y'ch chwi, yr ydych yn oruchwyliwr Duw, ac mae eich holl fendithion wedi eu rhoddi i chwi er mwyn bod o wasanaeth.

Gwnaeth yr Iesu ei oreu i ddinystrio yr amodau a'r cymhellion sydd yn gwneud drygioni ac yn atal daioni. Gwnaeth ei oreu i sefydlu ar y ddaear gyfundrefn newydd i gymdeithas, lle y byddai i'r teimladau mwyaf anhunanol ranu i bob un a phawb y trysorau y mae natur a gwareiddiad ddiweddar yn gynyrchu. Yr oedd y frawddeg "Teyrnas nefoedd" yn golygu iddo gyfnewidiad mewn amodau cymdeithasol, yn dwyn hapusrwydd, cysur a llwyddiant i bob un, ac yn peri i gyfiawnder a brawdoldeb deyrnasu yn holl gysylltiadau bywyd. Yna celai pob dinas a thref ei chyfnewid o fod yn wersyll lle mae pob un yn ceisio cael y trechaf ar ei gymydog ac yn gweithredu trwy dwyll a hoced i fod yn le wedi ei fendithio â chartrefi dedwydd. Nid goroesiad y mwyaf addas yw deddf yr Iesu, ond

addasu pobpeth i oroesi ; a'r deyrnas y mae efe yn gynyg yw nid rhyw diriogaeth draw yn mhell yn y nefolion leoedd, ond y ddaear gyffredin hon lle mae llinynau ein tynged wedi syrthio wedi ei melusu a'i sancteiddio gan gariad brawdol.

Mae bywyd heddyw wedi ei felldithio gan dlodi ac angen ; ac i'r bywyd hwn, a hwn yn unig, y ceisia'r Iesu ddwyn iachawdwriaeth gyflawn yr ysbryd brawdol. Mae ei deyrnas ef bob amser yn neshau—Byddwch fyw yn syml, gweithiwch yn onest, gwasanaethwch y Duw sydd yn siarad yn eich rheswm a'ch cydwybod, amddiffynwch y gwan a'r gorthrymedig, a chwi a gewch fynediad i mewn i'r nefoedd, a chewch ran yn yr iachawdwriaeth gyffredinol sydd yn ffrwyth aeddfed tangnefedd ac ewyllys da ar y ddaear.

Mae yr adeg wedi dod i gyhoeddi yn hyglyw grefydd Crist, crefydd dyn—crefydd pob dyn. Nid eglwys a gwrthglawdd mawr yn ei chau oddiwrth y byd ; nid cymdeithas a'i holl fryd ar achub eu heneidiau bychain, crebachlyd eu hunain mewn ofn a dychryn ; nid sect yn cyflwyno ei hun i Dduw, yn ol dull arferol sect, trwy gadw draw oddiwrth ddyn. Crefydd y byd hwn yw crefydd Crist, crefydd teyrnas nefoedd yma, crefydd sydd yn achub yma trwy adfer y tir yn ol i'r bobl, a'r bobl yn ol i'r tir. Dyma'r grefydd a wna achub holl eneidiau trwy eu hamgylchu ag amodau iachus gobeithlawn. Mae yn gofyn oddiwrth bob un o honom y gwasanaeth mwyaf diflino—gwasanaeth yr uchel i'r isel, gwasanaeth y cyfoethog i'r tlawd, gwasanaeth y gwybodus i'r anwybodus. Os ydym ni am gael rhan yn iachawdwriaeth yr Iesu rhaid i ni, fel efe, geisio a chadw y rhai a gollasid. Dim ond trwy wasanaeth eraill y gwaredir ni o uffern bywyd hunangar. Gwasanaeth i'n cymydog yw yr unig wir wasanaeth i Dduw. Mae y wir eglwys yn bodoli er mwyn yr holl ardal, ac nid er mwyn sect. 'Dyw gwir grefydd ddim yn peri i ni alaru uwchben ein heneidiau ; yr unig brawf yw bod yn ddefnyddiol i eraill. Pan y dysgwn ni y ffordd i ranu cyfoeth gystal ag y gwyddom y ffordd i'w gynyrchu, ymddangosa Eden eto mewn pobl ddedwydd, rhydd o bob trosedd, ac yn mwynhau pobpeth y gall daear, medr, a gwybodaeth ei roi.

Wrth ddarllen y Beibl yr ydym ni rywfodd neu gilydd wedi rhedeg i'r arferiad o feddwl fod y cyfarwyddiadau a gawn ni yno yn golygu rhywbeth gwahanol i'r hyn a olygant mewn gwirionedd. Llafur, gwin, defaid, ystrydoedd glân, dwfr pur, bara iachus, maent i gyd yn cael eu cymeryd yn ysbrydol, a'u troi yn ffigyrau ac yn gysgodluniau. Yr ydym yn gwneud math o eilun o'n Beibl, ac yn gwrthod ei ddarllen yn ei ystyr blaen, synwyr cyffredin. Cyhyd ag y pery crefydd yr hyn mae wedi bod am dri chant o flynyddau—yn fater o achub ein heneidiau ein hunain, yn bwnc o fyn'd i'r nefoedd, yn ddifater o ffyniant pawb eraill, cyhyd a hyny y byddwn ni heb ddeall yr egwyddorion ardderchog sydd yn yr hen Lyfr Bendigedig a chyhyd a hyny y byddant heb yr un dylanwad ar ein gweithrediadau. 'Rwy'n dweyd mai efengyl y diafol yw y grefydd hunangar yma nad yw yn hidio am neb ond am danom ein hunain. Fynychaf mae ein dyddordeb ni mewn cymdeithas yn darfod cyn gynted ag yr elom dros drothwy'r drws. Nid ydym ni yn hidio dim pwy fo yn edrych ar ol ein tlodion, pwy fo yn dysgu ein plant, pwy fo yn glanhau ein 'strydoedd, oblegid 'dyw ein tlodion ni ddim yn y *workhouse*, 'dyw ein plant *ni* ddim yn yr ysgolion—ac mae ein ty *ni* yn lân, ac yn rhydd o bob twymyn a haint, rhaid i bob dyn ofalu drosto'i hunan — arbeder y trethi. Ni a ganwn gyda holl eneiniad ysbryd brwd—"Jerusalem, fy nghartref gwiw" ; ond nid ydym yn malio gronyn am ddewis dynion uniawn, sobr a diwair i edrych ar ol buddiannau uwchaf ein teuluoedd a'n hardaloedd. Credwn ni neu beidio, mae gyda ni ddyledswyddau i'n plwyf, i'n sir, i'n gwlad, ac mae'r

dyledswyddau hyn yn gysegredig ac yn grefyddol. Pwy reswm ein bod ni yn dewis dyn y mae ei gymeriad yn sarn o bydredd moesol i lanw safle bwysig mewn cymdeithas. Pe gofynid i mi benderfynu cwestiwn sydd yn cynwys egwyddor bwysig mewn moesau, rwy i am i'm corff i fod yn gryf, a'm meddwl i fod yn hollol glir, cyn y galla i fod mewn stad gymhwys i roi fy marn ar y fath gwestiwn. Dyw y dyn y mae ei ymenydd wedi ei ddyrysu a'i syfrdanu gan dawch gwenwynig *alcohol* ddim mewn cyflwr i basio barn ar unrhyw fater o bwys.

Mae arwyddion yr amserau yn dweyd fod cyfnewidiad pwysig yn myn'd yn mlaen yn mhob adran o'r eglwys. Mae yr hen dduwinyddiaeth yn myn'd heibio—y dduwinyddiaeth sydd wedi bod yn hunllef ar feddyliau pobl—mae fel y mynydd o ia sydd yn crwydro allan o'i gwrs arferol, ac yn cael ei ddal yn y *Gulf Stream*, ac yno mae pelydrau gwresog yr haul yn taro arno oddi fry a'r dyfroedd claiar o'r trofanau yn ymosod arno oddi isod, ac yn raddol mae y mynydd yn diflanu yn gyfangwbl ac mae yn dyfod yn ran o'r cefnfor llydan sydd yn bedyddio pob cyfandir a'i wlith a'i wlaw. Dywedai arlunydd unwaith mai y peth mwyaf pwysig i bob *landscape painter* oedd dysgu ble i eistedd lawr. Mae duwinyddiaeth wedi dysgu'r wers, ac wedi newid y fan i eistedd lawr.

Yr hyn y daeth Crist i'r byd i'w wneud oedd nid dangos pa fodd i ddianc rhag uffern a myned mewn i'r nefoedd, ond pa fodd y gallwn ni ddianc oddiwrthym ein hunain ; pa fodd y gallwn ni beidio bod yr hyn ydym, a dod yr hyn y carem fod. Daeth i ddangos i ni beth yw dyn yn uwchaffan ei ogoniant, a dangos i ni y ffordd i gyrhaedd y man hwnw.

Bywyd anhunanol oedd bywyd yr Iesu, a'r peth cyntaf mae'n ddweyd wrth bob un o honynt yw hyn :—Ai dyma'r bywyd y'ch chwi am fyw? Ai dyma'r fath berson y'ch chwi am fod? A ydych chwi am fyw yn y byd yma i weled faint allwch chwi gael allan o hono, neu a ydych am fyw yn y byd i weled faint allwch osod ynddo? Ai eich amcan yw gwasanaethu'ch *hunan*, neu gwasanaethu eraill? A ydych chwi am wneud eich *hun* yn gyfoethog, neu eich cymydog yn gyfoethog. A ydych chwi am fod yn enwog, neu a ydych am ddefnyddio eich holl alluoedd i wneud eraill yn well ac yn fwy hapus? Beth garech chwi gael? Mae yr Iesu yn un o'i bregethau wedi dweyd wrthym beth yw amodau hapusrwydd. "Gwyn eu byd," meddai, "y tlodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." Ai dyna beth garech chwi? Beth ydych yn edmygu? Pan yr ydym yn darllen hanes am y Crist hwn, yn cael poeri arno, yn cael ei guro, a'i gam-enwi, ac yntau'n fud, credwn y dylem edmygu'r hanes, am mai hanes Crist yw, ac yn y capel yr ydym yn ei edmygu ; ond pan yr ydym ni, mewn bywyd cyhoeddus, yn gweled dyn yn cael ei watwar a'i ddiystyru am sefyll i fynu dros egwyddorion, beth garem ni oreu, Ai ei wel'd e'n dyoddef mewn distawrwydd, ac yn peidio ateb dim, neu ei wel'd yn ysgrifenu llythyr chwerw i'r papyrau, i ddyrysu ei holl elynion? P'un garech chwi? "Gwyn eu byd y rhai addfwyn canys hwy a etifeddant y ddaear."

Yn y capel nos Sul yr ydym yn credu yn yr ymadrodd am ei fod yn y Testament Newydd. Ond beth am foru? Beth am yr wythnos nesaf? A grogwn ni y geiriau fel baner uwchben drysau y gweith-dai lle mae'r cyfoethog yn pentyru cyfoeth mwy ar draul "*The white slaves of England.*" Pwy ydym ni'n meddwl sy'n cael lles y ddaear? Pe ysgrifensem ni ein hargyhoeddiadau uwchaf onid fel hyn fyddai'r geiriau, "Gwyn eu byd y mentrus a'r diegwyddor, canys hwy a gânt y ddaear." Ceisiwn ni gyrhaedd nod bywyd pur yr Iesu.

BARDDONIAETH ISLWYN.

Oes y papyrau newyddion yw yr oes hon: nid cynt y mae addysg wedi dod yn gyffredin, a phawb yn gallu darllen tipyn o Gymraeg a Saesneg, nid cynt y mae hyn wedi dod nad yw'r *Morning Paper* a'r *Evening Echo* wedi dod fel diluw dros y wlad: a phawb a'u trwynau ynddynt forau a hwyr—wrth y bwrdd brecwast ac amser swper.

Beth yw'r canlyniad? Y mae pawb ymron yn gwybod tipyn am helyntion y dydd: y mae pob plentyn yn gwybod am hanes pob *murder*, 'pob dyn sy wedi cwmpo mas a'i wraig,' a phob symudiad o *Yacht* y brenin, ie ac am bob tywysog Germanaidd sydd wedi fforffetio ei goron er mwyn rhedeg ymaith gyda rhyw gariadferch israddol iddo ei hun. Ydym, y mae pawb o honom yn hyddysg yn y pethau pwysig (?) hyn, ac yr ydym yn credu fod yn rhaid i ni fod yn *well up* ynddynt cyn myn'd allan i siarad ar ben yr heol, neu gael ein galw yn *dduffers*.

Pethau bach dibwys y dydd yw rhain oll i gyd—a dyma yw gwaith y *newspapers*—gwneud pethau bychain yn fawr—a gadael o dan sylw bethau mawrion bywyd ac hanesiaeth.

Y mae hyny yn enwedig wir yn Nghymru yma, pan y mae pawb yn darllen y papyrau Saesneg, papyrau wedi eu hysgrifenu gan mwyaf gan Saeson uniaith, na wyddant am neb tuallan i gwrs *politics* Prydain—na wyddant ddim am y bobl hyny sydd wedi gwneud Cymru'r hyn ydyw heddyw, na wyddant ddim am y bywydau distaw hyny sydd wedi bod yn lefeinio cymdeithas yn Nghymru yn y blynyddau sydd wedi myned heibio.

Pethau bychain, dibwys, darfodedig y dydd sydd i'w cael yn y newyddiaduron; ac y mae yn ddyledswydd ar rywun i alw sylw'r miloedd at bethau mawr, pwysig, diddarfod bywyd y dyn, bywyd y genedl; a byddai yn dda genyf pe bawn yn gallu galw eich sylw chwi yma heno at rai o'r pethau hyn pan y delwyf i drin gwrthrych y testyn.

Ein bai fel Cymru yw esgeuluso, ie diystyru ein rhagoriaethau ein hunain—y mae y Cymro yn rhy barod i edrych i lawr arno'i hun. Yr ydym yn rhy wylaidd, yn rhy ofnus, ac yn rhy barod i gyd-ymffurfio a barn estroniaid am danom.

Nid ydym yn gwneud digon o'n enwogion, o'n sefydliadau, o'n llenyddiaeth; ac y mae hyny yn neilldduol wir am y rhai hyny o honom nag sydd yn darllen Cymraeg. Pa faint o Gymry-Seisnig Abertillery heddyw sydd yn gwybod am enw Dafydd Ap Gwilym, am Hiraethog, ac am Ceiriog?

Y maent yn gwybod enwau mândywysogion a phobl gyhoeddus afrifed y dydd, am ddigwyddiadau dibwys y wlad, ac am ladron yr *Assizes*—ond ni wyddant ddim am Gymry enwog y gorphenol, am ddigwyddiadau cyffrous yr oesau sydd wedi myn'd heibio, a'r symudiadau mawrion hyny sydd yn graddol lunio dyfodol ein gwlad a'n cenedl. Yn ol hen ddywediad gwlad, y mae llawer o honom ni y Cymry yma yn credu fod baw o bell yn well na pherl o agos!

Yn sicr i chwi, cael ein diystyru yr ydym gan y Saeson am y pethau hyn—"He who despises himself is despised by others."

Y mae hyn yn fy adgofio am stori'r hen ddiacon hwnw oedd yn dra hoff o adael ei gapel ei hun i fyned i gapelau ereill yma a thraw. Yr oedd Shôn wedi myned dros y bryn rhyw ddydd Sul yn y boreu i wrando pregethwr yn y capel dieithr, a'i sedd yn oer ac yn wag o dan y pwlpud gartre'.

Ar ddiwedd y bregeth canwyd yr hen emyn hyfryd—

"Na'd fi grwydro
Draw ac yma o fy lle"

gyda chryn hwylusdod, ac ymunai Shôn yn *hearty* yn gân.

Ac meddai un o hen fobol y capel hwnw dan ei lais wrth Shôn,—

"Dyna Siaci," meddai, "dwbla di dipyn ar y geirie na, mi na'n les i ti."

A rhodd hyn derfyn ar deithiau Shôn dros y mynydd, ac ni wnaeth ragor o grwydro draw ac yma o'i le ei hun.

Ond yr wyf yn ofni eich bod chwithau yn dweyd wrthyf am gofio'r geiriau—

"Na'd fi grwydro
Draw ac yma o fy lle."

Ond os cymerwch dipyn o amynedd mi ddeuaf at fy nhestun yn y fan. Yr oeddwn yn son nad oeddem ni y Cymry yn talu digon o warogaeth i'n henwogion.

Yr oeddwn yn ddiweddar yn siarad a boneddiges oedd wedi bod yn rhoi tro yn Ysgotland—a'r peth mawr oedd yn ei synu yno oedd y parch a'r balchder gyda pha un yr oedd yr Ysgotiaid yn cadw cof eu henwogion—a phwy sydd wedi magu plant godidocach nag Albion arw? Bruce, a Wallace, Burns a Scott, Carlyle, ac Ian McLaren? Plant wedi eu dwyn i fyny yn galed, plant amaethwyr tlodion lawer o honynt, plant y rhosydd a'r mynyddau!

Dyma wers i ni'r Cymry—sydd yn anghofio y rhai a aberthasant waed eu calonau dros eu cyd-ddynion.

Y mae mieri a phrysgwydd yn rhedeg yn wyllt dros fedd Ieuan Glan Geirionydd, awdwr "Ar lan Iorddonen ddofn." Gyda chryn anhawsder y caed colofn i Daniel Owen, ein hunig nofelydd, ac y mae cronfa cof-golofn Llewelyn ein llyw olaf wedi troi yn fethiant.

Ydyw, y mae Cymru wedi diystyru ei phlant. Y mae cof ein henwogion yn cael ei esgeuluso. Nid ydym yn dal i fyny fywydau goreu'r oesau o flaen y dô sydd yn codi. Yn sicr, fy nghyfeillion, "yr ydym yn bwyta grawnwin surion," ac fe fydd dincod ar ddanedd ein plant.

Y mae *trash* y wasg Saesneg yn dylifo'r ystrydoedd. Y mae'r plant yn darllen a myfyrio'r cyfansoddiadau amhur a gwanychol hyn—ac nid ydym yn gwneud dim i'w atal. Yr ydym ni yn darllen y *Magazines* a *Tit Bits* ac yn anghofio ein llenyddiaeth ein hunain.

Pwy sydd yn darllen y Mabinogion yn y dyddiau hyn?

Pwy sydd yn astudio dim ar gywyddau Dafydd Ap Gwilym?

Pwy sydd yn darllen rhamant y Beibl Cymreig?

Y mae pob plentyn yn yr ysgol wedi darllen ystori'r *Spanish Armada* fel help i ddangos mai Prydain yw brenines y moroedd, a *champion fighter* y byd!

Ond pwy rai sydd wedi darllen hanes William Middleton fu'n ymladd dros ei wlad yn y rhyfel hwnw—ac yn ei amser hamddenol ar fwrdd y llong yn cyfieithu Salmau Dafydd i farddoniaeth Gymraeg—ond dan yr enw Gwilym Canoldref?

Pwy sydd yn darllen llyfr rhyfeddol yr hen Biwritan Morgan Llwyd o Wynedd—Llyfr y Tri Aderyn?

A pha faint o ddarllen sydd ar draethodau Dr. Edwards ac ar weithiau Gwilym Hiraethog.

Pa nifer o honom yn Abertillery heddyw sydd yn teimlo dyddordeb yn hanes ein sir ein hunain?

Pwy o'n plant sydd wedi clywed am hanes yr enwog Ifor Hael o Faesaleg—Bassalick y gelwir y lle yn iaith ddirywiedig y dyddiau hyn.

Y mae canoedd o fechgyn ieuainc a merched ieuainc y dyddiau yma yn marchogaeth ar eu *bicycles* drwy Crumlin a Newbridge—bro firain Gwent—hyd ochrau Mynyddislwyn—lle mae'r wlad eto yn llawn prydferthwch megys ag yr oedd yn y dyddiau pan oedd Dafydd Ap Gwilym yn crwydro drwy y wlad at ei noddwr

Ifor Hael, ac athrylith farddonol fwyaf Ewrob yn ymferwi o'i fewn.

Pwy o'r bobl hyn sydd yn gwybod dim o hanes Dafydd—nag hanes gwr arall fu'n byw yn nghof llawer o honynt—y bardd peraidd Islwyn? Nis gwn fod fawr o neb yn yr ardaloedd yma yn gwybod fawr o'i hanes, nag yn teimlo fawr sêl am glywed dim am dano chwaith.

"Nid oes barch i broffwyd yn ngwlad ei hun," ac y mae hyn yn neillduol wir am Islwyn.

Ac fel engraifft o un o'r proffwydi hyn yr wyf am ddal Islwyn o'ch blaen am ychydig fynudau yma heno. Fel engraifft o athrylith yn cael ei hesgeuluso—ei anghofio yn ei man genedigol. Fel engraifft o feddyliau pur ac aruchel yn cael eu anghofio am *drash* y papyrau newyddion, a llenyddiaeth y *bookstalls*. Fel blodeuyn pur a phrydferth mewn gardd, a drain, a drysni, a mieri yn tyfu trosto ac yn ei guddio o'r golwg.

Nid oes ond ychydig flynyddau er pan y mae Islwyn wedi marw; y mae llawer yn y dref hon yn cofio am dano yn pregethu yn nghymanfaoedd y Methodistiaid yn y cylchoedd hyn.

SARNICOL.

(Fw barhau.)

DR. P. J. FORSYTH A'R PARCH. R. J. CAMPBELL

Fel pob peth arall y mae'r dull o erlid wedi newid, tra mae'r yspryd yn aros yr un. Y mae'r tân a'r ffagodau a'r grogbren allan o ffasiwn fel moddion erlid; a deddfau'r wlad yn rhwystr i ladd a merthyru; ond hyd at hyny ceir pob peth arall yn aros yn debyg yr un peth. Ceir digon o'r tafod drwg a'r enwau cas a'r *cold shoulder*. Gwyr yr Undodwr ddigon am bethau felly. Fe geir yn mhob oes hefyd fod yna rywun yn feistr ar y gelfyddyd o drwyno heresi. Heddyw ymddengys fod Dr. Forsyth, prif athraw Coleg Hackney, yn awyddus i enwogi ei hun yn y cyfeiriad hwnw ac i enill iddo ei hunan y cymeriad o Amddiffynydd y Ffydd. Rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ol ystyrid ef ei hunan yn dipyn o heretic; ond heddyw oddi ar binacl ei enwogrwydd fel prif athraw ac o gastell ei ffydd yn Ngholeg Hackney, y mae efe'n awdurdod ar yr hyn sy'n uniongred a'r hyn sydd heb fod. Gall gyhoeddi'r ddedfryd a rhaid i'r ddedfryd sefyll; ond nid ymddengys fod neb yn ofni nac yn teimlo dim yn waeth. Mae'n wahanol heddyw i'r hyn oedd pan esgymunwyd y Brenin John gan y Pab.

* * *

Mewn papyr a ddarllenwyd yn y *Free Church Council* yn Hull, ychydig yn ol, gan Dr. Forsyth, cafodd yr hereticiaid fyned dan driniaeth chwerw iawn. Fe wel y Dr. parchedig y ddafad heintus o bell, a gesyd nod arni fel y gallo'r byd ei gochelyd. Pwnc y papyr oedd "Anesmwythder Crefyddol," a gallwn feddwl mai ei brif amcan oedd gosod muriau amddiffynol oddiamgylch i'r Gyffes Ffydd, a gosod rhybudd ar ben y muriau—"Heretics, beware: man traps planted here." Rhyfedd y twrw a'r drafferth y mae R. J. Campbell a'i gyfeillion wedi greu. Heddyw, fel erioed, y mae'n rhwyddach erlid heretic na'i ateb a'i argyhoeddi. Peth cysurus onide yw teimlo'n anffaeledig—gwybod hyd at sicrwydd. Dyna fel mae'r Dr. enwog yn teimlo. Os bydd dyn yn gallu derbyn ei air—ei

"ipse dixit" ef, pob peth o'r gore; ond os metha, wel, gwae fe. Mae'r Dr. wedi dweyd, a dyna ddiwedd ar y mater.

* * *

Y mae'r Dr. yn feistr ar y gelfyddyd o droi allan eiriau ac ymadroddion colynog. Anhawdd cael gan y Gymraeg i drosglwyddo eu cyffelyb. Fe greodd darlleniad y papyr gryn lawer o *sensation*, ac yn yr adroddiad yn y *Daily News* dranoeth fe ddywedir ei fod wedi ei anafu gan yr yspryd ffyrnig oedd yn cydredeg ag ef—"was marred by its fierce temper." Mae'r Dr. yn alluog, trueni ei fod mor chwerw; mae yn ddysgedig, trueni ei fod yn meddwl nad yw eraill yn gwybod dim; mae ei ragfarn yn deilwng o yspryd y canol oesoedd, trueni na allai weled ei hunan fel y mae eraill yn ei weled. Ystyria bawb sy'n gwahaniaethu oddiwrtho yn anonest, ac nid yw hyny yn gristnogol. Y mae'r byd yn myned rhagddo, y mae Dr. Forsyth wedi cyrhaedd *finality*.

* * *

Doniol yw'r geiriau hyn o'i eiddo—"Ni allwn ni mwy gredu yn anffaeledigrwydd y Beibl, ond rhaid i ni gredu yn ei *finality*." Ystyria rhai heddyw fod gwadu anffaeledigrwydd yn heresi, ond wele amddiffynydd yn dywedyd yn groes. Ond beth tybed sydd i'w olygu wrth y *finality* y rhaid ini ei gredu? A dweyd y lleiaf, mae'n dywyll iawn. Ni all y *finality* fod yn ddim arall nag opiniwn Dr. Forsyth am y Beibl, ac y mae gan arall gystal hawl ag yntau i ffurfio opiniwn am y Beibl. Beth yw *finality* ond y cyflwr o fod yn derfynol, o fod wedi ei setlo am byth; hyny yw opiniwn Dr. Forsyth am gynwys y Beibl; ond paham y gorfodir fi i dderbyn opiniwn nad yw fy rheswm yn ei gymeradwyo.

* * *

Dyma eiriau ysgrifenwyd gan Dr. Forsyth yn 1878: "Y mae pob amddiffyniadau *artificial* o'r gwirionedd, megys cau allan oddi wrth y cymundeb y cyfryw sy'n eu gwadu, yn seiliedig ar amheuaeth (*scepticism*) dirgel o'r gwirioneddau hyny. Nid yw dynion byth yn amddiffyn athrawiaethau na fydd amheuaeth yn eu cylch." Yr oedd y geiriau yna yn wir pan y llefarwyd hwynt yn Leicester, ac y maent yn wir heddyw; er eu bod yn dangos fod y Dr. yn anghyson â'i hunan, a'i fod yn myned yn ei ol, yn lle myned yn ei flaen.

CONGL YR AWEN.

"TRECH GWLAD NAG ARGLWYDD."

Ti Gymro gwladgar! Erglyw frawd,
Ysbrydion dy gyndadau
Fu gynt dan ddu gymylau ffawd
Ar feusydd gwaedlyd gadau,
Yn gwneyd eu rhan er dwyn i ben
Hyd eithaf nod perffeithrwydd,
Arwyddair rhyddid Gwalia Wen
Mai trech yw gwlad nag arglwydd.

Na goddef cam, dewisent hwy
Dros iawnder ddwyn eu croesau;
A choch gan waed gormesol glwy
Eu rhawd ar hyd yr oesau;
Eu hymgais fu ag eirf y gwir
Ar glogwyn sefydlogrwydd,
Am byth i gerfio'n ddwfn a chlir
Mai trech yw gwlad nag arglwydd.

Am fraint a rhyddid, 'wiw it' son,
Os ti dy hun wnei blygu
I'r neb—'waeth beth ei drâs na'i fôn
Wna eto'th wlad ddirmygu ;
Nid llyfu'r llaw wnai beri'r cur
Heb ddangos anfoddlonrwydd
Erioed rodd sail i'r wireb bur
Mai trech yw gwlad nag arglwydd.

Ni waeth it' honni fod drwy'th fron
Yn llifo waed Llywelyn,
Os nad i'th rudd daw'r gwrid yn dòn,
I'th wlad pan weli elyn ;
Nid yw dy waed yn well na dwfr
Os troi o lwybr dyledswydd ;
A chofia fyth nad calon lwfr
Wna wlad yn drech nag arglwydd.

Mae beddau hyd lechweddau'th wlad
Na ŵyr un dyn eu hanes ;
'Does odid gae nad maes y gad
Fu gynt yn erbyn gormes ;
Bu llawer Glyndwr gwrol, do,
Nas enwa llyfr enwogrwydd,
Ddewisai'n hytrach lety'r gro
Na gwlad na threchai arglwydd.

Mae dagrau mam a rhuddwaed tad
I'w gwel'd ar bob tudalen
O gyfrol ddrud iawnderau'th wlad,
Mae ing ym mhob llythyren.
Cyn colli hon, yn ol na fydd
O ddangos dy barodrwydd,
I roi dy einioes dros dy ffydd
Fod gwlad yn drech nag arglwydd.

Gan mai o bridd y ddaear gwnaed
Y bonedd a'r gwerinol,
Pa raid fod teulu mawr dan draed
Un aelod arglwyddiaethol ?
Tra saif cyfiawnder o'r tu cefn,
Mae nerth mewn lliosawgrwydd
(Fel tonnau'n treulio'r graig yn llefn)
Wna wlad yn drech nag arglwydd.

Heb ofni gwg na Theyrn na Phab,
Na gwasaidd ddwyn eu beichiau,
Rho brawf dy fod i'th deidiau'n fab,
Yn hyf dynoetha'th freichiau ;
Yn foddlon ar dy stad na fydd,
Er cwrdd a llawer aflwydd,
Nes profi'n glir fel goleu dydd
Mai trech yw gwlad nag arglwydd.

CLEDLYN.

UCHELGAIS.

Ti welaist, Ffrynd ! y gloyn byw,
A wyddost laned, deced yw ;
Yn wyrdd lindysyn hyll ei ddrych ;
Pwy goeliai fyth ehedai'n wych ?
Dyrchafodd hwn drwy ymdrech
greddf—
Ar gynnydd dyn mae hefyd ddeddf,
Cyn daw ei ddawn fel gloyw ddur,
Mae'n rhaid wrth aidd uchelgais bur.

Mae'r plentyn bach o awr i awr
O hyd a'i nod ar fod yn fawr ;
O fewn aflonydd fynwes dyn
Rhyw anniflanol hiraeth lŷn.
Nid boddlon i'r presenol gwael—
Gwel draw o'i flaen ddyfodol hael.
Yn lle ymlusgo hyd y glyn
Fel gloyn byw ehedeg fyn.

Y morthwyl lunia aradr hedd,
Y morthwyl hefyd lunia'r cledd ;
Nid eiddo ef y sen na'r clod,
Ai gwael ai gwych a fydd y nod.
Uchelgais gref i ben a ddwg
Fwriadau'r fron—bônt dda, bônt
ddrwg ;
Bu forwyn fad i 'wyllys dyn !
Mae sel a nerth yn hon ynglyn.

Uchelgais deg ! Rhy aml o hyd
Ar wag deganau troir dy fryd,
O doed yr awr na wel it' nod
Ond gwneyd y da heb falio'r clod.
Gan neb na rodder iti swydd
Na fo er bendith dyn a'i lwydd ;
Pob ymgais deg dros rinwedd wen
O ! dyro'th nawdd i'w dwyn i ben.

YR EHEDYDD.

(*Buddugol, Llanarth, 1909.*)

Goreu bynciwr y bencydd—edn go
blaen
Dan gôb lwyd yw'r 'hedydd ;
Miri'i dôn ym moreu dydd
O fry, fry, wefria fröydd.

CLEDLYN.

Y NOS.

Buddugol yn Eisteddfod Cwmfelin Mynach, 1910.

Canu wnaf i gysgod daear
Hened a goleuni yw ;
Moli wnaf am nawdd y fantell,
Enwodd ac ordeiniodd Duw.
Dod wna'r nos heb goll rhwng dauddydd,
Ar ei chymwynasol daith,
I roi trwmgwsg i'r blinedig
Brofodd eithaf hin a gwaith.

Yn y nos mae'r eos gerddgar,
Yn telori rhwng y dail ;
Llanw'r gwyll a wna a moliant,
Wedi colli gwên yr haul.
Yn y nos mae'r ysglyfaethus
Gadnaw'n chwilio am ei fwyd ;
A'r ddallhuan leddf ei hacen
Gyfyd ar ei hasgell lwyd.

Yn y nos mae tannau telyn
Natur hudol oll yn dyn—
Twrf y glasfor ar y draethell,
Si cornentydd yn y glyn.
Bys yr awel ar y deilos,
Llef yr hegen yn y gwair ;
A chwibaniad gwas yr Hafod,
Ar ei ffordd i gwmni Mair.

Yn y nos mae'r ser yn siarad
Gyda rhwysg o gànt y nen,
Am eangder ac ysblander
Creadigaeth Duw uwchben.
Yn y nos i'r ardd ae'r Iesu,
Gweddiai nes grymusai'i ffydd,
Cyn gwynebu nos marwolaeth,
Ar ei ffordd i fythol fyd.

DEWI MARLAIS.

Castell Draenog,

Whitland.

MARWGOFION.

IONAWR 9, yn 55 oed, bu farw Jonah Davies, Holly Bush Hotel, Dowlais. Yr oedd yn enedigol o'r Cribyn, ac y mae un brawd a thair chwaer yn byw yn y gymmydogaeth yn awr. Ymfudodd i Dowlais pan yn dra ieuanc, ac yn ystod ei arosiad yno bu yn fynychwr gweddol gyson o'r capel yn White Street. Gadawodd weddw a dau o blant ar ei ol. Claddwyd ei weddillion yn nghladdfa'r Pant y dydd Iau canlynol, y Parch. J. Hathren Davies yn pregethu ; cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan y Parch. J. P. Kane.

MAWRTH 2, yn 69 oed, bu farw Sarah Davies, Tancoed, ger Cwrtnewydd. Yr oedd yn chwaer i'r Parch. J. Davies, Alltyplacca a Chapelybryn, a buont ill dau yn cydfyw ar yr un aelwyd bron yn ddifwlch trwy'r oll o'u bywyd. Er marwolaeth eu rhieni, flynyddau iawer yn ol, hi fu yn gofalu am y cartref, a gwnaeth hyny gyda ffyddlondeb mawr. Nid yn aml y ceid aelwyd mor glyd a chysurus. Yr oedd ei gofal am ei brawd yn fawr, a diameu fod llawer o'i lwyddiant fel pregethwr a gweinidog yn ystod ei weinidogaeth faith i'w briodoli i'w hymdrechion hi i wneyd ei fywyd yn rhydd o bob gofal a ffwdan afreidiol. Nid oes amheuaeth na theimla golled fawr ar ei hol. Ond sicr ydym y gwna ei nith a'i nai, y rhai ydynt wedi bod yn byw gydag ef yn Tancoed, bron er yn blant, eu goreu i lanw'r bwlch, ac i wneyd y gweddill o'r daith iddo yn ddymunol a chysurus. Heblaw Mr. Davies, gadawodd ar ei hol un brawd a dwy chwaer. Y dydd Sad-

wrn canlynol, daeth nifer anarferol o liosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i gladdfa Capelybryn, arwydd sicr o'r cydymdeimlad cyffredinol a'r teulu ac o barch iddi hithau. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, Capelygroes ; ac awd trwy y rhanau eraill o'r gwasanaeth gan y Parchn. R. C. Jones, L. Williams, a T. A. Thomas.

MAWRTH 2, yn 11 oed, Tom William, mab y diweddar James a Margaret Jones, Y Ffactri, Talgareg. Gyda chydymdeimlad mawr a'r fam a'r plant yr ydym yn cofnodi marwolaeth yr ieuanc hwn, y trydydd marwolaeth sydd wedi cymeryd lle yn y teulu mewn llai na blwyddyn o amser. Mae y tad a dau blentyn wedi rhagflaenu, a gweddw ieuanc a thri o blant bychain wedi eu gadael i wynebu troion yr yrfa heb un cwmni i'w cynorthwy. Yr oedd Tom yn gwaelu er ys blwyddyn, ac effeithiodd colli ei dad yn druenus ar ei gyfansoddiad gwan. Un tawel, diswn oedd yn mysg plant, un diddig yn ei gartref, un ffyddlawn yn yr Ysgol Sul. Aeth adref yn gynar gan adael cylch helaeth o gyfeillion i alaru ar ei ol. Duw a fyddo yn noddfa a nerth i'r fam a'r plant yn eu trallod. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 5, bu farw David Jones, Hafod Villa, gynt o'r Alltgoch, Llanwenog, yn 71 oed. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol weddw a nifer fawr o blant, y rhai ydynt oll mewn sefyllfaoedd cysurus. Cydymdeimlir yn fawr a'r weddw yn ei hunigedd, ac yn ei cholled o gymar bywyd. Dydd Iau canlynol hebryngwyd ei weddillion i gladdfa Capelygroes gan nifer liosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

MAWRTH 9, yn 38 oed, bu farw Arthur Meyrick Jones, mab i'r diweddar William Jones, Y.H., Llwynygroes. O'r teulu lliosog hwn nid oes bellach yn aros ond pedwar brawd a dwy chwaer. Cymerodd y gladdedigaeth le dydd Sadwrn canlynol yn mynwent eglwys Llanwnen. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parchn. D. Evans a J. Davies ; gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Ficer. Traddodwyd y bregeth angladdol yn yr Eglwys y Sul canlynol.

MAWRTH 11, yn 42 oed, Anne, priod John Thomas, Pantteg, Crosslan, a merch i Watkin a Mali Davies, Tanyfron, Capel Dewi. Er fod yr ymadawedig yn ganolig er's rhai blynyddau eto fe ddaeth ei diwedd yn sydyn a bron yn ddirybudd. Gadawodd briod, dwy ferch, tad a mam, chwaer a phedwar o frodyr, i alaru ar ei hol. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Bwlchygroes, pryd y gwasanaethwyd gan Mr. Davies, gweinidog y lle ; D. Jones, Gwernllwyn ; ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

MAWRTH 11, yn 88 oed, Thomas Thomas, Glowon Dale (gynt o'r Cwarre), Talgareg, gan adael priod oedranus, pump o blant, brawd, chwaer a pherthynasau ereill mewn galar. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r cymeriadau henaf, os nad yr henaf yn y gymydogaeth, ac yn un a berchid yn fawr fel crefftwr didwyll a chymydog tawel a chymwynasgar. Yr oedd yn Undodwr selog a deallus —un a rheswm ganddo dros y gobaith oedd ynddo, a mynychodd yr addoliad yn Capelyfadfa yn ffyddlon am flynyddoedd meithion. Cafodd iechyd da ar y cyfan, ond yr oedd arwyddion ei fod yn colli'r dydd yn amlygu eu hunain yn ei gyfansoddiad er ys rhai blynyddoedd. Claddwyd y Mercher canlynol yn Capelyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ; E J. Edwards, (A.), Brynrhiwgaled, a T. C. Benjamin, (A.)

MAWRTH 14, yn 36 mlwydd oed, William Septimus Davies, New York, ger Llanbedr, a chefnder i'r Parch. J. Hathren Davies. Bydd ei farwolaeth yn golled fawr i'r eglwys ym Mrondeifi, lle'r oedd wedi bod yn addoli drwy ei oes. Yr oedd ei fywyd yn un neillduol lawn yn ei gartref ac yn yr eglwys. Yr oedd

yn briod a thad gofalus a chariadus, ac yr oedd ei garedigrwydd a'i dynerwch tuag at ei fam sydd wedi dioddef ar wely cystudd cyhyd yn dangos yn eglur ei awydd parhaus i wasanaethu lle bynag y gallai. Yr oedd yn un o aelodau mwyaf ffyddlon a pharchus y ddeadell yn Mrondeifi, yn mlaenllaw gyda'r canu, ac yn wasanaethgar iawn yn yr Ysgol Sul; efe oedd arolygydd yr ysgol am y flwyddyn; yr oedd hefyd yn athraw llwyddianus, a dangosodd yr ysgol a'i ddosbarth ddyfned eu parch tuag ato drwy gyflwyno dwy *wreath* i'w gosod ar ei fedd. Yr oedd William Davies bob amser a'i ysbryd yn llon, ac ni fynwesai deimladau cas tuag at neb. Ni chlywid gan neb air bach iddo yntau—cerid ef gan bawb. Gwag yw lle un mor ffyddlon, ac nid oes genym ond hyderu y bydd i'w weithgarwch ef symbylu ereill i gymeryd i fyny'r arfau. Mae meddwl am ei fywyd syml, didramgwydd yn iechyd i'r galon. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw a thri o blant bach, mam oedrannus, chwaer ac amryw frodyr, a llu o berthynasau eraill. Tad pob trugaredd fyddo'n dŵr a tharian iddynt yn eu cyfyngder mawr a'u galar. Claddwyd ei gorph yn nghladdfa Brondeifi, ddydd Sadwrn, Mawrth 19. Pregethwyd yn y tŷ gan weinidog y lle, a chynorthwywyd ef yn y gwasanaeth gan y Parchn. D. Rhoslwyn Davies, Carolan Davies (A.), a Lewis Williams. Daeth tyrfa fawr iawn ynghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

MAWRTH 21, Thomas Thomas, Penarfawr, Llandyssilio-go-go, yn 83 mlwydd oed. Treuliodd fore ei fywyd yn Frongau, ger Capel Dewi, Llandyssul, a chredwn mai yno y ganed ef, ac wedi treiglo o llono o fan i fan gyda'r amcan o wella ei amgylchiadau a gwneuthur darpariaeth well ar gyfer ei deulu, gorphenodd ei yrfa ddaearol yn y lle ac ar y dydd uchod, wedi ei ddigoni i fesur a hir ddyddiau ac wedi addfedu fel tywysen o ŷd, ac wedi goroesi ei anwyl briod am ryw ddeunaw mlynedd. Yr oedd Thomas Thomas yn briod ffyddlon ac yn dad tyner a gofalus, ac yn ddyn hoff gan ei gymydogion yn gyffredinol. Gadawodd mewn galar ar ei ol ddau frawd oedranus, a phedwar o blant, heblaw perthynasau eraill lawer. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Llwynrhydowen, yn medd ei briod, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn cael ei gynorthwyo gan weinidog y lle.

MANION AC HANESION.

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Cynhelir yr uchod prydnawn Sadwrn, Ebrill 16, am 5 o'r gloch. Gofaled yr athrawon hyspysu y plant.

CASGLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Mae y casgliad hwn yn ddyledus yn awr. Erfyniwn ar arolygwyr yr Ysgolion Sul ei ddwyn gerbron yr ysgolion ar unwaith. Danfoner y casgliadau i'r Trysorydd, Mr. D Saunders Davies, Commercial House, Felinfach, S.O., Cardigshire.

CAPELYFADFA.—Nos Lun, Chwefror 28ain, cynhaliodd Ysgol Sul y

lle uchod ei chyfarfod llenyddol a chystadleuol blynyddol. Daeth tyrfa luosog yn nghyd, a chafwyd cyfarfod hwylus iawn o dan lywyddiaeth Mr. T. G. Thomas, y Ffactri, tra y beirniadwyd i foddlonrwydd pawb gan Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd 61 o blant am eu ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul.

LLWYNRHYDOWEN. — Yr oedd dydd Gwener, Mawrth 4ydd, yn ddiwrnod pwysig a hapus yn hanes cynulleidfa'r Llwyn, canys ar y dydd yna cafwyd gwledd ardderchog o dê a bara brith, yn nghyd a chyfarfod adloniadol a chystadleuol o dan nawdd yr Ysgol Sul. Gan fod y tywydd yn ffafriol daeth torf anarferol yn nghyd, a chafwyd prydnawn neillduol lawen. Rhoddwyd y tê eleni gan y ddwy chwaer Mrs. Jones, Darrenfach, a Miss Evans, Gwarcwm. Yr oedd y tê yn wir deilwng o'r serch mawr sydd ganddynt at yr achos yn y Llwyn—tê na ellid disgwyl ei well. Teimlai pawb yn flin yn herwydd absenoldeb Miss Evans. Gwyddom mor dda y byddai ganddi allu bod yn bresenol, ac mor falch y byddai pawb o'i chwmni llon, ond nid oedd cyflwr ei hiechyd yn caniatau hyny, ac nid oes genym ond cynyg iddi ein cydymdeimlad dwys a'n dymuniadau ar iddi gael gwellhad buan. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod doniol ac adeiladol—adrodd, canu a chystadlu. Cadeiriwyd gan Mr. Thos. Parry ; arweiniwyd gan Mr. E. O. Jenkins ; a beirniadwyd gan Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms, yn fedrus iawn.

PENTRE.—Nos Iau, y 3ydd cyfisol, cynhaliwyd cyngherdd plant llwyddianus iawn o dan nawdd eglwys Glanrhondda, yn Drill Hall, Pentre. Yn absenoldeb Dr. J. Jenkins cymerwyd y gadair gan Mr. John Lewis, Pontypridd. Yr oedd yr adeilad yr hwn fedr ddal tua 700, yn orlawn. Yr oedd nifer y plant gymerent ran yn y gwahanol weithrediadau dros 80 a'r mwyafrif o honynt yn perthyn i enwadau y tu allan i Undodiaeth a llawer o honynt heb fod yn perthyn i unrhyw enwad o gwbl. Aethant oll drwy eu gwaith mewn modd hollol foddhaol. Y mae'r llwyddiant i'w briodoli yn benaf i Mr. Josiah Phillips, L.T.S.C., yr hwn ddaeth drosodd yn ddiweddar oddiwrth yr Annibynwyr. Y mae eisoes wedi profi ei hun yn gaffaeliad mawr i'r achos yn y lle. Yr oedd er ys tro wedi enill enw da iddo ei hun fel arweinydd plant ac yn ddiamheu catodd yr eglwys i'r hon y perthynai'n flaenorol golled mawr ar ei ol, ond colled un fu'n elw y llall. Cynorthwywyd Mr. Phillips gan Misses Griffiths, Jenkins, Rickards a Thomas, Sergeant Davies, a Mri. James Phillips a George Thomas, A.C., ac yn neillduol gan bwyllgor y gwraged o dan arweiniad medrus Mrs. Joseph Jenkins. Hyderir fod yr elw, tua £35, yr hwn a i glirio'r ddyled ar y capel. Nos Fawrth y 15fed eniliodd Mr. Phillips barch mwy eto drwy gyflawni cymwynas arall. Rhoddodd dê yn y capel yn rhad ac am ddim i'r holl blant oeddynt wedi cymeryd rhan yn y cyngherdd ac hefyd i'w rhieni. Daeth nifer luosog yn nghyd a chafwyd amser hyfryd a llawen. Dywedodd Mr. Phillips mewn araeth lawn o frwdfrydedd ei fod wedi cael pleser mawr wrth weithio dros yr achos ac hyderai weled Undodiaeth yn fwy blodeuog yn yr ardal yn y dyfodol nag y bu erioed o'r blaen, ac yn sicr felly y byddai pe bae pob Undodwr mor selog a gweithgar a Mr. Phillips. Rhoddodd y gweinidog, y Parch. E. A. Dennis, ddatganiad i deimladau pawb oedd yn bresenol mewn nifer o benillion. Cafwyd gafael ar y bardd newydd mewn modd hollol anisgwyliadwy a byddwn yn edrych am ragor oddiwrtho eto. Yr oedd y blaenffrwyth yn addewidiol iawn. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Phillips gan Mr. George Payne ac eiliwyd gan Mr. Lewis Lewis, cefnogwyd gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., a phasiwyd mewn modd calonog. Felly dygwyd dau amgylchiad llwyddianus iawn yn hanes Undodiaeth y lle i derfyn dymunol a

barn pawb yn bresenol oedd—iawn-ffyddwyr yn ogystal ag eraill—fod yr achos yn cynyddu mewn parch a ffafr ac fod yr hen ffiniau sectyddol wedi eu symud i ffwrdd i raddau helaeth iawn. Pe bae dieithriaid ond deall Undodiaeth a dyfod i adnabyddiaeth o Undodiaid byddai gwedd wahanol ar ein henwad mewn byr amser.

PANTDEFAID.—Dydd Iau, Mawrth 24, anrhegwyd aelodau yr Ysgol Sul, yn nghyd a chyfeillion yr achos yn Mhantdefaid â gwledd o de a phob danteithion gan Mr. a Mrs. Davies, Coedfoeluchaf. Daeth lluaws mawr yn nghyd a buwyd yn ddiwyd yn rhanu a chyfranogi o'r pethau da drwy y prydnawn. Cynorthwywyd Mrs. Davies wrth y byrddau, &c., gan foneddigesau caredig y gynulleidfa, ac ymddangosai pawb yn eu hwyliau goreu. Yn yr hwyr, o dan lywyddiaeth y brawd parod a ffyddlon Mr. D. Thomas, Cloth Hall, cynhaliwyd cyfarfod llenyddol o radd uchel. Cymerwyd rhan ynddo gan yn agos i holl aelodau'r Ysgol Sul mewn canu ac adrodd. Rhanwyd gwobrwyon rhwng y plant fu'n ffyddlon yn eu mynychiadau yn ystod y flwyddyn, gan obeithio y bydd hyny yn eu hanog i fwy o ffyddlondeb yn y dyfodol. Ar y diwedd talwyd y diolchiadau arferol i roddwyr y te ac eraill, a therfynwyd diwrnod dyddorol a hir gofir am dano trwy ganu Hen Wlad Fy Nhadau.

DR. TUDOR JONES.—Da genym ddeall oddi wrth hyspysiad yn y *Christian Life* fod y Parch. Dr. Tudor Jones i wasanaethu pedwar Sul yn mis Mai yn Unity Church, Islington. Casglwn oddiwrth hyny ei fod ar ei ffordd adref o New Zealand. Y mae hefyd i roddi y prif anerchiad yn un o gyfarfodydd y British & Foreign gynhelir yn Llundain wythnos y Sulgwyn.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac eraill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } **Pris, 7s. 6c.; cludiad yn rhad, 7s. 11c.**

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.
SWANSEA. LTD.